BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU

# Adroddiad Perfformiad

EBRILL 2023 - MAWRTH 2024



DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

# Ein cynnydd hyd yma

Mae'r adroddiad perfformiad hwn, sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2023 - 2024 ac a gyflwynir bob chwarter, yn olrhain ein cynnydd yn erbyn y targedau a nodir yn ein cynllun busnes, a sut rydym yn cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

### Cynyddu nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB

TARGED +4%

+12%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r cyfleoedd blasu sydd ar gael

TARGED +4%

100% | +105%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r nifer o unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB

TARGED +7%

+20%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r nifer o bobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle

TARGED +15%

+85%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu nifer y prentisiaethau CITB a ddechreuir

TARGED +4%

-3%

TARO'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt

TARGED +20%

0%

TARO'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu

TARGED +5%

+12%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

### Cynyddu'r nifer o unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi

TARGED +4%

+7%

UWCH NA'R TARGED

BWRW GOLWG →

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 4% O GYNNYDD YN NIFER Y BOBL SY'N CEISIO CYMORTH GYRFAOEDD GAN CITB

### CYNNYDD: YN UWCH NA'R TARGED AR +12%

Mae nifer yr ymweliadau â gwefan Am Adeiladu wedi cynyddu 12%, gyda nifer y cliciau am allan wedi cynyddu 75%, nifer yr ymweliadau â thudalennau prentisiaethau wedi cynyddu 324%, a nifer y cliciau drwodd i Talentview Construction (sef cartref swyddi gwag yn y diwydiant adeiladu) wedi cynyddu 158%. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymweliadau ag Am Adeiladu yn dangos bod mwy o bobl yn awyddus i ddeall mwy am y diwydiant ac yn ystyried dechrau arni ym maes adeiladu. Mae 584 o brentisiaid wedi gwneud cais i gymryd rhan yn SkillBuild, y gystadleuaeth sgiliau aml-grefft fwyaf yn y DU, o'i gymharu â 450 y llynedd, gan gynnwys 4% yn fwy o ymgeiswyr o gynulleidfaoedd amrywiol.

Rhwng dydd Llun 18 Mawrth a dydd Sadwrn 23 Mawrth, cynhaliwyd menter Open Doors 2024. Cynhaliwyd dros 210 o ddigwyddiadau ledled Prydain Fawr fel rhan o'r fenter hon a ddarperir gan Build UK, mewn partneriaeth â CITB. Roedd y digwyddiadau yn mynd ag ymwelwyr y tu ôl i'r llenni yn y diwydiant adeiladu, gan arddangos yr ystod wych o yrfaoedd sydd ar gael.




← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

NESAF →

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

**Cyfleoedd blasu sydd ar gael**

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 4% O GYNNYDD YN Y CYFLEOEDD BLASU SYDD AR GAEL

### CYNNYDD: YN UWCH NA'R TARGED AR +105%

Mae dros 29,000 o bobl wedi elwa o brofiadau blasu, sy'n sylweddol uwch na'r llynedd, gyda'n tîm Ymgysylltu â Chwsmeriaid yn darparu dros 26,500 ac yn comisiynu dros 2,400 o brofiadau. Mae cyfleoedd blasu yn dysgu ac yn codi blys ar fwy o bobl i ymuno â'r diwydiant adeiladu, gan roi profiad diddorol a chadarnhaol i bobl ifanc a phobl sy'n dymuno newid gyrfa.

Mae'r cynnydd yn nifer y cyfleoedd blasu yn dangos bod darpar ymgeiswyr yn ystyried opsiynau i ddatblygu eu diddordeb mewn gyrfa adeiladu.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

### CYNYDDU'R CYFLEOEDD BLASU SYDD AR GAEL




**29,000**
o brofiadau blasu wedi'u darparu

**Dros 26,500**
wedi'u darparu gan ein Tîm Ymgysylltu â Chwsmeriaid

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

**Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB**

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 7% O GYNNYDD YN NIFER YR UNIGOLION A GYNORTHWYIR I GAEL GWAITH AR ÔL ADDYSG BELLACH

### CYNNYDD: ▲ YN UWCH NA'R TARGED AR +20%

Roedd ein grantiau prentisiaeth wedi cefnogi 29,428 o brentisiaid, o'i gymharu â 26,200 yr adeg hon y llynedd. Ar ben hynny, mae'r gwariant ar gyflawni grantiau prentisiaethau wedi cynyddu 15% yn erbyn y gyllideb.

Roedd ein Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (NEST), a ehangwyd yn ddiweddar, wedi helpu dros 2,340 o bobl i ddechrau prentisiaeth, o'i gymharu â 386 y llynedd. Mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n dechrau yn awgrymu bod gan newydd-ddyfodiaid fynediad at sgiliau a chyfleoedd tymor hwy a fydd yn gwella eu dealltwriaeth o'r sector adeiladu ac yn gwella eu cyflogadwyedd. Mae'r newydd-ddyfodiaid hyn hefyd yn cael eu cefnogi i helpu i lenwi bylchau a phrinder sgiliau yn y diwydiant.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

### CYNYDDU'R NIFER O UNIGOLION SY'N CAEL EU CEFNOGI I GYFLOGAETH AR ÔL AB

TARGED +7%

**+20%**

Mae'r Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid wedi helpu dros **2,340** o bobl i ddechrau prentisiaeth

Mae **29,438** o ddysgwyr wedi cael cymorth gyda grantiau prentisiaethau

Mae'r grant cyflawni prentisiaethau **wedi cynyddu 15%**

Mae **£77.8m** wedi'i fuddsoddi mewn grantiau prentisiaethau

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 15% O GYNNYDD YN NIFER Y BOBL SYDD MEWN CYFLOGAETH BARHAUS AM 3 MIS DRWY HYBIAU AR Y SAFLE

### CYNNYDD: ▲ YN UWCH NA'R TARGED AR +85%

Mae ein hybiau Profiad ar y Safle yn ehangu'r gronfa dalent yng Nghymru a Lloegr drwy ddod â chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol, Partneriaethau Menter Leol, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill at ei gilydd, gan alluogi pobl o gymunedau lleol sy'n barod am y safle adeiladu i gael eu datblygu a'u cyflogi.

Roedd cyfanswm cronnus o 1935 o bobl wedi dechau cyflogaeth barhaus erbyn mis Mawrth 2024, gyda 1151 yn ystod 2023-24. Mae'r cynnydd yn dangos bod mwy o bobl yn llenwi bylchau sgiliau ar draws y diwydiant.

Mae ein dau gomisiwn ar-y-safle newydd eisoes yn dwyn ffrwyth, gydag Academi Cyfleoedd Adeiladu'r Alban yn sicrhau cyflogaeth barhaus i 72 o bobl, a Chyfleoedd Adeiladu Lloegr yn sicrhau swyddi i 659 o unigolion.

← BLAENOROL ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL NESAF →

CYNYDDU'R NIFER O BOBL MEWN CYFLOGAETH BARHAUS AM DRI MIS TRWY HYBIAU AR Y SAFLE




**85%** o gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth barhaus

**659** o bobl wedi symud ymlaen i gyflogaeth barhaus drwy Gyfleoedd Adeiladu Lloegr

# Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

**Prentisiaethau CITB a ddechreuir**

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 4% O GYNNYDD YN NIFER Y PRENTISIAETHAU CITB A DDECHREUWYD

### CYNNYDD: YN IS NA'R TARGED AR -3%

Daeth yr Alban â'r flwyddyn i ben gyda 1,505 o brentisiaethau wedi'u dechrau, yn erbyn targed o 1,525, a hynny oherwydd bod busnesau wedi cau.

Roedd gan Loegr 241 yn erbyn targed o 381, oherwydd bod yr NCC yn canolbwyntio ar ansawdd, nid niferoedd, yn dilyn arolygiad Ofsted. Mae'r niferoedd ar gyfer Cymru yn fach ond maent wedi gwella, gydag 11 o'i gymharu ag 8 y llynedd. Mae ein perfformiad yn is na'r targed ar 3%, ond mae'n fwy cadarnhaol na'r darlun cenedlaethol (prentisiaethau a ddechreuwyd yn Lloegr wedi gostwng 6% (blwyddyn academaidd), wedi cynyddu 1% yn yr Alban (blwyddyn ariannol 2022-23) ac wedi gostwng 18% yng Nghymru (blwyddyn academaidd) ac mae'n dangos bod CITB yn helpu pobl i gael hyfforddiant adeiladu.

Yn galonogol, mae ein Llais Cyflogwyr diweddaraf yn dweud bod 31% o gyflogwyr yn bwriadu cyflogi prentis, gyda 48% arall yn dweud efallai y byddant yn cyflogi un. Lloegr sydd â'r tebygolrwydd uchaf ar 42%, ac yna'r Alban (35%) a Chymru (30%). Mae cyflogwyr wedi canmol y Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid am eu cymorth angenrheidiol.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

### CYNYDDU NIFER Y PRENTISIAETHAU CITB A DDECHREUIR




**1,505** o brentisiaethau wedi'u dechrau yn yr Alban eleni

**31%** o gwmnïau yn bwriadu cyflogi prentis

# Creu llwybrau hyfforddiant wedi'u diffinio

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

**Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt**

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 20% O'R GALW AM SGILIAU YN Y DIWYDIANT WEDI EI GWMPASU DRWY LWYBRAU CYMHWYSEDD A HYFFORDDIANT Y CYTUNWYD ARNYNT

### CYNNYDD: YN IS NA'R TARGED AR 0%

Mae naw fframwaith cymhwysedd bellach wedi'u cwblhau ac maent wedi cael eu trosglwyddo i'r Uwch Sectorau er mwyn cytuno arnynt. Mae ein dull ar gyfer fframweithiau cymhwysedd wedi newid i sicrhau bod y diwydiant yn eu cefnogi, ac i sicrhau bod IfATE (Lloegr) a'i sefydliadau cyfatebol yn yr Alban a Chymru yn eu cymeradwyo ac yn eu hymgorffori yn eu safonau. Bwriedir i'r Gweithgorau ddechrau'r broses gymeradwyo a chytuno ar gyfer y naw fframwaith cymhwysedd dros y chwe mis nesaf.

O ganlyniad, ni fydd ein perfformiad yn cyrraedd ein targed yn 2023-24 ond mae ar y trywydd iawn i lwyddo yn 2024-25, ac mae'n dangos y bydd CITB yn cyfrannu at hyfforddi gweithlu mwy cymwys.

← BLAENOROL
← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL
NESAF →

**GALW AM SGILIAU'R DIWYDIANT WEDI'I GWMPASU GAN GYMHWYSEDD A LLWYBRAU HYFFORDDI Y CYTUNWYD ARNYNT**

TARGED +20%

0%

Bydd gweithgorau yn cytuno ar **naw** fframwaith cymhwysedd dros y 6 mis nesaf

Bydd naw llwybr yn cwmpasu **20%** o ofynion sgiliau'r diwydiant

# Cyflenwi hyfforddiant yn effeithlon

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

**Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu**

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 5% O GYNNYDD MEWN CYMORTH HYFFORDDIANT CITB A GAFODD EI DDEFNYDDIO GAN GYFLOGWYR

### CYNNYDD: YN UWCH NA'R TARGED AR +12%

Rydym yn gweld cynnydd yn nifer y cyflogwyr a gefnogir gan grantiau, cyllid, yr NCC, Grwpiau Hyfforddi a'r Rhwydwaith Cyflogwyr. Mae hyn yn dangos bod cyflogwyr yn parhau i fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant. Drwy'r Rhwydwaith Cyflogwyr, cafodd 783 o gyflogwyr gefnogaeth o'i gymharu â 266 (rhan o'r flwyddyn: Awst 2023 – Mawrth 2024) y llynedd, a chyfanswm o 1,029 i gyd.

Mae'r Rhwydwaith Cyflogwyr yn parhau i annog cyflogwyr i hyfforddi. Mawrth ac Ebrill 2024 oedd misoedd olaf cynllun peilot y Rhwydwaith Cyflogwyr, a byddwn yn cyflwyno darpariaeth lawn y Rhwydwaith Cyflogwyr yn genedlaethol rhwng mis Mai a mis Medi 2024. Mae'r Rhwydweithiau Cyflogwyr sy'n cael eu rheoli'n allanol wedi cytuno i ymestyn eu cytundeb cyllido tan 31 Rhagfyr 2024. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyflogwyr hynny sy'n defnyddio'r Rhwydweithiau Cyflogwyr ar hyn o bryd yn cael cymorth cyson a pharhaus i gael gafael ar hyfforddiant ar gyfer eu busnes.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

### CYNYDDU'R CYMORTH HYFFORDDIANT CITB Y MAE CYFLOGWYR YN CYRCHU




**900** o gyflogwyr wedi'u cefnogi gan y Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant

**157** o gyflogwyr wedi'u cefnogi gan y Gronfa Arweinyddiaeth a Rheolaeth



# Cyflenwi hyfforddiant yn effeithlon

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi

Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi →

## 4% O GYNNYDD YN NIFER YR UNIGOLION SY'N CAEL EU HYFFORDDI NEU EU CEFNOGI

### CYNNYDD: YN UWCH NA'R TARGED AR +7%

Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n cael eu cefnogi yn yr un meysydd ag y mae cyflogwyr yn cael eu cefnogi, sy'n dangos bod cyflogwyr yn dal i hyfforddi eu staff, ac mae hyn wedi cynyddu ers y llynedd.

Mae rhai meysydd twf yn cynnwys:

Roedd y Rhwydwaith Cyflogwyr wedi perfformio'n dda, a gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr a gefnogwyd – 11,453 o'i gymharu â 3,567 (rhan o'r flwyddyn: Awst 2023 – Mawrth 2024) y llynedd, a chyfanswm o 15,020 i gyd. Mae'r dull cefnogi newydd hwn yn dangos bod cyflogwyr yn buddsoddi mwy mewn hyfforddiant.

Gwelsom gynnydd o 5% yn nifer y bobl a hyfforddwyd drwy'r NCC a'r Ganolfan Achrededig Arbenigol Genedlaethol (NSAC). Ochr yn ochr â thwf yr NCC, gwelwyd hefyd gynnydd o 16% yn nifer y bobl sy'n cwblhau cyrsiau Site Safety Plus.

Mae ein hystod o opsiynau cyllid a grantiau hefyd yn helpu unigolion i gymhwyso a chwblhau hyfforddiant uwchsgilio hanfodol – gyda 19,617 o unigolion yn cael eu cefnogi drwy gymhwyster grant, ac 16,883 yn cael eu cefnogi drwy ein Cronfa Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

← BLAENOROL | ← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL | NESAF →

### CYNYDDU'R NIFER O UNIGOLION SY'N CAEL EU HYFFORDDI NEU EU CEFNOGI

TARGED +4%

+7%

**16,883** o unigolion wedi'u cefnogi gan y Gronfa Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**19,617** o unigolion wedi'u cefnogi gan grant cymwysterau

GYNNYDD YN NIFER YR UNIGOLION A GEFNOGIR DRWY SITE SAFETY PLUS (SSP)

16%

**11,453** o unigolion wedi'u cefnogi gan Rwydweithiau Cyflogwyr

# Sut mae cyflogwyr yn elwa o'r Lefi

Dangosyddion Perfformiad Allweddol →

**Gwella piblinell pobl y diwydiant adeiladu**

Nifer y bobl sy'n cyrchu cymorth gyrfaoedd CITB →

Cyfleoedd blasu sydd ar gael →

Unigolion sy'n cael eu cefnogi i gyflogaeth ar ôl AB →

Pobl mewn cyflogaeth barhaus am dri mis trwy Hybiau ar y Safle →

Prentisiaethau CITB a ddechreuir →

**Creu llwybrau hyfforddi diffiniedig**

Galw am sgiliau'r diwydiant wedi'i gwmpasu gan gymhwysedd a llwybrau hyfforddi y cytunwyd arnynt →

**Darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon**

Cymorth hyfforddiant CITB y mae cyflogwyr yn cyrchu →

Unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi →

**Sut mae'r cyflogwyr yn elwa o'r Lefi**

Mae'r Lefi yma i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr adeiladu ledled Prydain Fawr. Dyma drosolwg o'r buddsoddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol, gan gynnwys prentisiaethau, cyllid cyflogwyr a darparu ein cynnyrch a'n gwasanaethau.

Dros y flwyddyn hon, rydym wedi buddsoddi bron i £263m, sydd ychydig yn uwch na'r £253m roeddem wedi bwriadu ei fuddsoddi yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023-24. Bu galw mawr am ein grantiau prentisiaethau a chymwysterau, ac mae dyblu'r grantiau cyfnod byr wedi arwain at gynnydd yn yr hyfforddiant a wneir gan gyflogwyr.

Yn gyffredinol, rydym mewn sefyllfa gadarn iawn i gefnogi ein cwsmeriaid ar drothwy blwyddyn 2024-25 ein Cynllun Busnes. Cesglir y Lefi yn unol â disgwyliadau, ac mae ein cymorth grantiau, ein cyllid a'n prentisiaethau yn darparu gweithlu medrus iawn. Mae cyfanswm ein cymorth i gyflogwyr a'r diwydiant wedi bod £5m yn fwy na'r hyn a ragwelwyd (yn amodol ar archwiliad), gan ddangos yn glir bod y galw am ein gwasanaethau hyfforddi a chymorth yn fywiog a bod mwy o gyflogwyr yn defnyddio'r cymorth CITB sydd ar gael iddynt.




CYFANSWM Y BUDDSODDIAD
**ER MWYN 2023-24**

← BLAENOROL

← DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

| | GWIRIONEDDOL £M | CYNLLUN BUSNES £M | AMRYWIAD £M |
|---|---|---|---|
| **CYLLID UNIONGYRCHOL I GYFLOGWYR** | | | |
| Grantiau Prentisiaeth | 77.8 | 63.8 | 14.0 |
| Grantiau Cymwysterau | 18.7 | 11.4 | 7.3 |
| Grantiau Hyfforddiant Cyfnod Byr | 29.6 | 31.5 | -1.9 |
| Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant | 11.8 | 15.1 | -3.3 |
| Gweithgarwch a Ariennir | 16.5 | 21.3 | -4.9 |
| **CEFNOGAETH ARALL** | | | |
| Gwasanaethau Cymorth i Gyflogwyr - Ymgysylltu | 10.5 | 10.0 | 0.5 |
| Safonau, Cymwysterau a Dilysu | 3.2 | 3.1 | 0.1 |
| Polisi ac Ymchwil Sgiliau a Chyflogaeth | 2.6 | 2.5 | 0.0 |
| **DARPARU CYNHYRCHION A GWASANAETHAU** | | | |
| Darpariaeth Uniongyrchol o Hyfforddiant (NCC) | 25.3 | 24.3 | 0.9 |
| Prentisiaethau | 32.1 | 27.5 | 4.6 |
| Cynhyrchion a Gwasanaethau Eraill | 16.7 | 17.8 | -1.1 |
| Cost gweinyddu Lefi, Grantiau, a Chynlluniau Ariannu | 17.9 | 18.6 | -0.6 |

IS-DODAU:










| FFYNONELLAU INCWM | GWIRIONEDDOL £M | CYNLLUN BUSNES £M | AMRYWIAD £M |
|---|---|---|---|
| Lefi | 196.1 | 196.1 | -0.0 |
| Incwm Cynhyrchion a Gwasanaethau | 52.0 | 44.9 | 7.1 |
| Balans (I)/O'r Cronfeydd Gefn | 14.5 | 6.0 | 8.6 |

CYFANSWM INCWM:




Diwedd blwyddyn gychwynnol yn cau yn amodol ar archwiliad.